

Agored Cymru Access to HE - Science / Bioscience Level 3



Yn gwyno

Os nad oes gennych gymwysterau ffurfiol bydd y cwrs hwn yn cynnig llwybr carlam at addysg uwch mewn bioleg, cemeg neu ffiseg (a llawer mwy)

Dyma'r cwrs i chi os...

...Oes gennych ddiddordeb brwd mewn unrhyw ddisgyblaeth wyddonol

... Ydych eisiau astudio cwrs gwyddoniaeth yn y brifysgol

... Rydych eisiau gyrfa o fewn y byd gwyddonol.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn astudio amrywiaeth o bynciau megis bioleg, ffiseg, anatomi, ffisioleg a mathemateg, yn ogystal â phrosiect ymarferol estynedig. Byddwch hefyd yn astudio unedau sgiliau allweddol mewn cyfathrebu a rhifedd.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r cwrs hwn yn addas os hoffech symud ymlaen at radd mewn unrhyw ddisgyblaeth wyddonol (Bioleg, Cemeg neu ffiseg) neu bynciau gwyddoniaeth fiolegol megis Biotechnoleg, Bioleg y Môr, Microbioleg, Nanodechnoleg, Cadwraeth Natur, Ffarmacoleg, Ymchwil wyddonol (Gwyddorau bywyd a meddygol), Priddeg, Swoleg, Radiograffeg a Ffisiotherapi.

Gall y cwrs hwn arwain at gyflogaeth mewn meysydd megis addysgu ysgol uwchradd, darlithydd addysg uwch, aciwbegydd, nyrs deintyddol, hylenydd deintyddol, meddyg teulu, arbenigwr hybu iechyd, awdur gwyddonol, ymgynghorwr cynaliadwyedd, nyrs milfeddygol, ceidwad Sw neu gydymaith meddygol.

Bydd gennych brofiad bywyd y tu hwnt i addysg orfodol ar ôl bod allan o addysg orfodol am ddwy flynedd neud fwy. Amcan y cwrs yw darparu amgylchedd cyfeillgar a chefnogol i ddatblygu eich gallu a'ch paratoi chi ar gyfer astudio ar lefel brifysgol, gyda llawer o gyn-fyfyrwyr yn mynd ymlaen i ennill graddau a dyfarniadau eraill.

Mae'r Diploma Mynediad at Addysg Uwch yn cael ei ddyfarnu gan Agored Cymru. Byddwch yn derbyn diploma Mynediad i Wyddoniaeth/Biowyddoniaeth Agored Cymru ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Mae hwn yn gwrs paratoadol ar gyfer prifysgol ac mae ymrwymiad yn hanfodol. Rydym yn adolygu pob cais yn ofalus ar sail unigol, ac felly rydym yn gofyn i unigolion fynychu sesiwn gyfweld. Ar gyfer mynediad, rydym hefyd yn disgwyl gweld sgiliau rhyngpersonol da, ymrwymiad i'r maes astudiaeth a brwdfrydedd a dealltwriaeth o'ch llwybr gyrfa dewisol. Byddwch angen Gradd TGAU A* - C (neu sgiliau cyfatebol) mewn Saesneg Iaith neu Fathemateg.

Rhaid i ddysgwyr fod wedi gadael addysg lawn amser am dair blynedd cyn astudio'r cwrs hwn. Gan fod y cwrs wedi cael ei ddylunio ar gyfer unigolion sydd â phrofiad bywyd, nid yw'n addas ar gyfer ymgeiswyr sydd o dan 19 oed.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol. Mae dangos parch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunan gymhelliant yn nodweddion hanfodol rydym yn disgwyl eu gweld ym mhob un o'n dysgwyr. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs. Mae'n rhaid cwblhau pob aseiniad yn llwyddiannus er mwyn ennill y cymhwyster.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Astudio pynciau megis gwyddoniaeth fiolegol, gwyddorau naturiol, gwyddor amgylchedd, cemeg, gwyddoniaeth ffisegol, ymchwil, technoleg, peirianeg, hyfforddi athrawon ac addysg yn y brifysgol.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

